# Biopsi o'r Fwlfa

## Esbonio'r Driniaeth, Gwybodaeth a Chydsynio

**Mae'r daflen hon yn dweud wrthych chi beth i'w ddisgwyl yn ystod eich triniaeth ac ar ôl hynny, a gyda phwy i gysylltu os oes gennych chi unrhyw bryderon ar ôl i chi fynd adref.**

**Beth yw Biopsi o'r Fwlfa?**

Mae biopsi o'r fwlfa'n driniaeth lawfeddygol fach lle tynnir darn bach o feinwe o ardal annormal y fwlfa. Weithiau nid yw'n bosibl gwybod yn union beth sy'n bod ar y croen drwy edrych arno'n unig. Os felly, gall biopsi roi gwybodaeth ddefnyddiol a all helpu i wneud diagnosis neu i awgrymu triniaeth addas.

Cynhelir y biopsi o dan anesthetig lleol neu anesthetig cyffredinol. Byddwn yn cynnal y driniaeth o dan anesthetig lleol mewn lleoliadau cleifion allanol, neu os yw o dan anesthetig cyffredinol, bydd mewn uned llawdriniaeth ddydd. Byddwn yn anfon y sampl i'r labordy i batholegydd ei archwilio o dan ficrosgop.

**Cyn y driniaeth:**


Anesthetig lleol - Gallwch fwyta ac yfed fel arfer ymlaen llaw.
Anesthetig cyffredinol - Peidiwch â bwyta 6 awr cyn y driniaeth a pheidiwch ag yfed hylifau clir 2 awr cyn y driniaeth.
Parhewch i gymryd eich meddyginiaethau arferol ond rhowch wybod i ni os ydych chi'n cymryd teneuwyr gwaed neu feddyginiaethau gwrthblatennau. Byddwn yn rhoi cyngor i chi am bryd i roi'r gorau i'w cymryd. Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen gydsynio.
Rhowch wybod i ni os oes gennych chi alergeddau.

**Pa mor hir fydd y biopsi yn ei gymryd?**

Mae'r driniaeth i gyd gan gynnwys gofyn i chi gydsynio a'r ymgynghoriad yn cymryd hyd at 30 munud. Bydd gofyn i chi orwedd ar eich cefn â'ch coesau ar led. Bydd anesthetig lleol yn cael ei chwistrellu i'r fwlfa i wneud yr ardal yn ddideimlad. Efallai y bydd hyn yn pigo am ychydig eiliadau. Ni fydd y biopsi'n brifo ond gall fod yn anghyfforddus. Byddwn yn aildrefnu'r driniaeth o dan anesthetig cyffredinol os yw'n rhy anghyfforddus o dan anesthetig lleol. Mae biopsi yn cynnwys cymryd darn o groen o ardal y fwlfa, ac fel arfer caiff ei gau gydag un neu fwy o bwythau toddadwy.

Weithiau gellir cau safle'r biopsi heb bwythau, gan roi nitrad arian i'w selio. Efallai y bydd gennych redlif wedi'i afliwio am ddiwrnod neu ddau wedyn.

Diagram o ardal y fwlfa lle y gellir cymryd biopsi.




**Ar ôl biopsi**

**Fyddaf i'n gallu gyrru adref neu fynd adref ar fy mhen fy hun ar y bws?** Mae cael biopsi o'r croen yn gallu bod yn anghyfforddus. Efallai y byddai'n syniad da trefnu i rywun fynd â chi adref. Mae hefyd yn syniad da gorffwys am ychydig oriau ar ôl y biopsi er mwyn lleihau'r risg y bydd y clwyf yn gwaedu.

Mae'r pwythau'n tueddu i doddi a syrthio allan ar eu pennau eu hunain. Fel arfer mae'r anesthetig yn diflannu ar ôl tua hanner awr. Bydd safle'r biopsi yn teimlo ychydig yn ddolurus. Efallai y byddwch chi'n teimlo'n fwy cyfforddus os cymerwch chi gyffuriau lleddfu poen fel parasetamol neu ibuprofen.

Byddem yn eich cynghori i osgoi gwaith trwm neu sefyll am gyfnodau hir am weddill y dydd. Gallwch olchi croen y fwlfa â dŵr plaen ar ôl i chi basio wrin; bydd hynny'n lleddfu unrhyw ddolur. Fel arall, gallwch sychu'r croen yn ysgafn â phapur toiled fel arfer. Ar ôl agor eich coluddion, gwnewch yn siŵr eich bod yn sychu'r croen gan symud y papur oddi wrth y fwlfa. Bydd rinsio'r croen yn drylwyr ar ôl mynd i'r toiled yn helpu i gadw'r clwyf mor lân â phosibl.

Parhewch i olchi'r croen y fwlfa bob dydd fel arfer. Mae'n well golchi'r croen â dŵr yn unig. Fe fydd yn haws gwneud hyn yn y gawod, ond os byddwch chi'n cael bath, ymolchwch yn gyflym ac yn drylwyr. Peidiwch â socian yn y bath am y ddau i dri diwrnod cyntaf ar ôl y biopsi. Bydd hyn yn caniatáu i'r clwyf sychu.

Ar ôl ymolchi, mae'n bwysig eich bod yn sychu'r ardal yn drylwyr. Gellir gwneud hyn yn ofalus gyda thywel glân â chyffyrddiad ysgafn (peidiwch â rhwbio) neu drwy ddefnyddio sychwr gwallt ar y gosodiad 'oer'.

Rydym yn eich cynghori i wisgo dillad llac a dillad isaf cotwm ar ôl y driniaeth. Peidiwch â defnyddio gwlanen neu sbwng i olchi'r ardal o amgylch y fwlfa.

**Pryd gaf i fynd yn ôl at fy nhrefn arferol?**
Bydd yn cymryd ychydig ddyddiau i'r croen wella ac mae'n debyg y bydd yr ardal yn teimlo'n dyner. Efallai y bydd yn pigo pan fyddwch chi'n pasio wrin, ac efallai y byddwch chi'n gweld bod dillad llac yn fwy cyfforddus am ychydig ddyddiau.

Peidiwch ag ymarfer corff yn egnïol e.e. rhedeg, beicio, marchogaeth ceffylau ac ati am ychydig ddyddiau ar ôl cael y biopsi gan fod yr ardal yn debygol o fod yn anghyfforddus a bydd safle'r biopsi'n fregus.

Gallwch ailddechrau cyfathrach rywiol ar ôl tair neu bedair wythnos os yw'r ardal yn gwbl gyfforddus.

Os ydych chi'n nofiwr rheolaidd, gallwch chi ddechrau nofio eto ar ôl i'r pwythau doddi neu ar ôl i safle'r biopsi wella'n llwyr.

**Beth yw'r risgiau sydd ynghlwm â Biopsi o’r Fwlfa?**
Mae rhai risgiau bach wrth gael biopsi o’r fwlfa. Gall y biopsi adael craith fach ar y croen. Bydd rhywfaint o waedu adeg y biopsi, ond bydd y gweithredwr yn ceisio atal hyn cyn i chi adael.

Weithiau, bydd y gwaedu'n dechrau eto yn ddiweddarach yn y dydd. Os bydd hyn yn digwydd, dylech bwyso ar y croen â darn o wlân cotwm neu dywel am 15 munud gan orwedd a gorffwyso. Os na fydd y gwaedu’n stopio bryd hynny, dylech gysylltu â’r clinig neu’r uned damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty lleol.

Mae’n bosibl i haint fynd i mewn i'r corff drwy'r clwyf bach yn y croen. Mae hyn yn anghyffredin. Os bydd hyn yn digwydd, bydd safle'r biopsi yn teimlo'n fwy anghyfforddus ac yn boethach wrth i'r dyddiau fynd heibio, a gall ddechrau diferu. Os bydd hyn yn digwydd, dylech gysylltu â'ch meddyg. Efallai y bydd angen triniaeth wrthfiotig arnoch chi.

Anaml iawn y bydd y graith yn boenus yn y tymor hir. Mae hyn yn dibynnu ar gyflwr gwaelodol y croen a hefyd os ydych eisoes wedi cael poen yn y fwlfa.

**Pryd fyddaf i'n cael y canlyniadau?**
Bydd eich meddyg neu nyrs yn trefnu i gysylltu â chi neu eich gweld eto pan fydd y canlyniadau'n ôl ac i drafod unrhyw driniaeth a allai gael ei chynghori.

Bydd hyn naill ai:

- Mewn llythyr a anfonir atoch chi drwy'r post
- Yn cael ei drafod yn ystod eich apwyntiad cleifion allanol nesaf.
- Dros y ffôn os oes angen trafod y canlyniadau ar frys

Bydd eich meddyg teulu'n cael llythyr yn egluro canlyniadau eich biopsi hefyd.

Os nad ydych wedi clywed gennym ymhen wyth wythnos o ddyddiad y biopsi, cysylltwch â'r clinig rhag ofn ein bod wedi cael anhawster cysylltu â chi.

**Rhifau Cyswllt Defnyddiol**

EGAU yn Ysbyty Prifysgol Y Faenor - 01633493557

AMBU a'r Uned Colposgopi, Ysbyty Nevill Hall – 01873733239

**Cyfeiriadau:**

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Swydd Lincoln a Goole: Taflen Cyngor ar ôl biopsi o'r fwlfa Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gogledd Tees a Hartlepool
Biopsi Fylfol Cancer Research UK
Biopsi o'r Fwlfa Cymorth Canser Macmillan

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**
**This document is available in English"**

Dynodydd/label claf

**Cytundeb claf i archwiliad neu driniaeth Gynaecoleg:**

Enw'r driniaeth neu'r cwrs o driniaeth arfaethedig: **Biopsi pwnsh o'r fwlfa (unigol neu luosog) neu fisi toriad o'r fwlfa**

Datganiad gweithiwr proffesiynol iechyd (i'w lenwi gan weithiwr proffesiynol iechyd gyda gwybodaeth briodol am y llawdriniaeth arfaethedig, fel y nodir yn y polisi cydsynio, ac a fydd, yn ddelfrydol yn gallu gwneud y llawdriniaeth).

Mae'r driniaeth hon yn cynnwys cymryd sampl(au) bach o groen y fwlfa. Yn gyntaf, mae anesthetig lleol, sydd weithiau'n cael ei gyfuno â meddyginiaeth i helpu i reoli gwaedu, yn cael ei chwistrellu i'r briw ar y fwlfa. Yna, defnyddir offer i gael y sampl. Bydd pwysau'n cael ei roi ar safle'r biopsi yn ogystal â nitrad arian neu bwythau i reoli'r gwaedu. Bydd y biopsi o'r fwlfa'n cael ei anfon i'r adran batholeg i'w archwilio. Gellir defnyddio'r driniaeth i wneud diagnosis o heintiau, llid, cyn-ganser, canser, neu gyflyrau eraill sy'n effeithio ar groen yr organau cenhedlu. Weithiau gall olygu cael gwared ar friw cyfan gydag ymyl (biopsi toriad).
Risgiau: gwaedu, hematoma, haint, anghysur ysgafn/cymedrol, creithiau, a methu â rhoi diagnosis neu wella cyflwr gwaelodol, y cyflwr yn parhau neu'n ailddigwydd, angen cael y driniaeth eto.
**Manteision**: rhoi diagnosis a/neu leddfu symptomau.
**Dewisiadau eraill**: peidio â chael y driniaeth, rhoi cynnig ar driniaeth feddygol.
Rwyf wedi cael cyngor am natur a phwrpas y driniaeth/triniaethau llawfeddygol arfaethedig, natur fy nghyflwr, mathau amgen o driniaeth a'r prognosis gyda thriniaeth neu heb driniaeth.
Unrhyw driniaethau eraill a allai fod yn angenrheidiol yn ystod y driniaeth hon

Triniaeth arall *(nodwch)* ……………………………………………………………………
Bydd y driniaeth hon yn cynnwys:
Anesthetig cyffredinol a/neu ranbarthol Anesthetig lleol
Tawelydd

Rwyf hefyd wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i olygu, manteision a risgiau unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael (gan gynnwys peidio â chael triniaeth o gwbl) ac unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.
Rhoddwyd y daflen wybodaeth hon i'r claf.

Llofnod…………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………

Enw (PRINT BRAS)……………………………………………………………… ..
Swydd…………………………

**Manylion cyswllt** *(os yw'r claf yn dymuno trafod opsiynau yn ddiweddarach)*
…………………………………………………………………………………

**1. Datganiad claf/rhiant**
Mae gennych hawl i newid eich meddwl unrhyw bryd, hyd yn oed ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon)
Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth yn y llyfryn sydd ynghlwm, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau
**Rwy'n cytuno** i gael y driniaeth a ddisgrifir yn y llyfryn hwn ac ar y ffurflen. **Rwy'n deall na allwch roi gwarant i mi y bydd unigolyn penodol yn cynnal y driniaeth. Fodd bynnag, bydd gan yr unigolyn brofiad priodol. Pan fydd hyfforddai yn cynnal yr archwiliad, caiff ei gynnal dan oruchwyliaeth ymarferydd cwbl gymwys.**

Llofnod……………………………………. Enw (PRINT BRAS):……………………………….
Dyddiad……………………..

Datganiad dehonglydd (lle bo'n briodol)
Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth uchod i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y credaf y gallant ei deall.

Llofnod ………………………Dyddiad……………………

Enw *(PRINT BRAS)* ………………………………………………………………………………………………

**A gafodd y claf y copi uchaf?** Do / Naddo *(rhowch gylch fel sy'n briodol)*

**Cadarnhau cydsyniad (i'w gwblhau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol pan gaiff y claf ei dderbyn ar gyfer y driniaeth, os yw'r claf/rhiant wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)**
Rwyf wedi cadarnhau bod y claf/rhiant yn deall beth mae'r driniaeth yn ei olygu, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau. Nid oes gan y claf unrhyw gwestiynau pellach ac mae'n dymuno i'r driniaeth fynd yn ei blaen.

Llofnod……………………………………………………………………………………….
Dyddiad……………………..

Enw (PRINT BRAS)…………………………………………………………………
Swydd……….....................

Dosbarthiad: COPI 1: YSBYTY; COPI 2: CLAF
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan